**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CYMUNEDAU A MENTER**
**16 MAI 2018**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau a Menter Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgor Delyn, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, ddydd Mercher 16 Mai 2018.

**YN BRESENNOL:**
Y Cynghorwyr: Sian Braun, David Cox, Jean Davies, Ron Davies, Adele Davies-Cooke, Rosetta Dolphin, George Hardcastle, Ray Hughes, Dennis Hutchinson, Ted Palmer, Mike Reece, Paul Shotton a David Wisinger

**AR RAN:** Chris Dolphin (yn lle Mared Eastwood)

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorwyr: Helen Brown, Patrick Heesom a Paul Johnson

**CYFRANWYR:** Cynghorydd Bernie Attridge, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Dai; Y Cynghorydd Derek Butler, Aelod Cabinet dros Ddatblygu Economaidd; Prif Swyddog (Tai ac Asedau), Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi), Rheolwr Menter ac Adfywio, Rheolwr Budd-daliadau, Rheolwr Gwasanaeth Cymorth i Gwsmeriaid a'r Arolygydd Contractau.

**WRTH LAW:** Hwylusydd Cymunedau a Menter a'r Swyddog Gwasanaethau Etholiadol.

## 1. PENODI CADEIRYDD

Dywedodd yr Hwylusydd ei fod wedi'i gadarnhau yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor Sir y dylai Cadeirydd y Pwyllgor ddod o'r Grŵp Llafur. Gan fod y Cynghorydd Ian Dunbar wedi'i benodi'r i'r swydd hon gan y Grŵp, gofynnwyd i'r Pwyllgor gymeradwyo'r penderfyniad.

**PENDERFYNWYD:**

Fod y Cynghorydd Ian Dunbar yn cael ei gadarnhau fel Cadeirydd y Pwyllgor.

## 2. PENODI IS-GADEIRYDD

Enwebodd y Cynghorydd David Wisinger y Cynghorydd Ted Palmer yn Is-Gadeirydd y Pwyllgor. Fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd Ron Davies.

Yn dilyn pleidlais, penodwyd y Cynghorydd Ted Palmer yn Is-Gadeirydd y Pwyllgor.

**PENDERFYNWYD:**

Fod y Cynghorydd Ted Palmer yn cael ei benodi'n Is-Gadeirydd y Pwyllgor

## 3. DATGANIADAU O GYSYLLTIAD

Ni dderbyniwyd dim.

4. **COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Mawrth 2018.

Cyfeiriodd y Cynghorydd George Hardcastle at dudalen 3 y cofnodion a dywedodd nad oedd wedi derbyn ymateb i'r pryderon a gododd am y ffaith nad oed y rhif ffôn ar gyfer atgyweiriadau brys/argyfwng ar gael yn ystod y tywydd garw. Eglurodd y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Dai fod problemau technegol wedi bod o ganlyniad i'r nifer uwch o alwadau. Roedd y materion hyn bellach wedi'u datrys a byddai ymateb manwl yn cael ei roi i'r Cynghorydd Hardcastle yn dilyn y cyfarfod.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

5. **RHAGLEN AMGYLCHEDDOL SAFON ANSAWDD TAI CYMRU**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Prif Swyddog (Tai ac Asedau). Roedd yn canolbwyntio ar ddatblygiad y Rhaglen Amgylcheddol fel rhan o Safon Ansawdd Tai Cymru (WHQS).

Wrth ddatblygu ei raglen waith ar gyfer yr WHQS i gyd, mae'r Cyngor wedi rhannu'r sir yn chwe ardal ddaearyddol fwy neu lai yr un faint, gyda phob un yn cael rhaglen waith ym mhob blwyddyn ariannol, fel y dangosir yn Atodiad A. Datblygwyd rhaglenni gan ddefnyddio gwybodaeth oedd yn dod o arolygon cyflwr stoc, ond hefyd drwy ddefnyddio adborth gan denantiaid, ac Aelodau a swyddogion ar lawr gwlad. Roedd y data arolwg cyflwr yn cael ei adolygu'n rheolaidd a'i addasu i adlewyrchu cyflwr gwell yr eiddo yn dilyn adnewyddu.

Tynnwyd sylw'r Pwyllgor gan y Prif Swyddog (Tai ac Asedau) i Atodiad B yr adroddiad a oedd yn rhoi manylion y matrics a ddefnyddir gan swyddogion wrth asesu cynlluniau ar gyfer gwaith amgylcheddol. Yn seiliedig ar y meini prawf hyn, dangoswyd y Rhaglen Amgylcheddol arfaethedig yn Atodiad C.

Gofynnodd y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Dai i'r Pwyllgor adolygu'r rhestr a'r cyngor os oeddent yn teimlo'i bod yn ystyried y gofynion yn eu hardaloedd nhw yn ddigonol. Yn dilyn y cyfarfod, byddai copi o'r rhaglen arfaethedig yn cael ei anfon i bob Aelod fel y gellid cysylltu â nhw ar y cynigion.

Gwnaeth y Cynghorydd Paul Shotton sylw am nifer y garejis ar draws y Sir a oedd angen eu hadnewyddu a'r anawsterau gyda pharcio yn ei ward ei hun. Canmolodd y gwaith a oedd yn cael ei wneud fel rhan o'r WHQS a gofynnod a oedd gan y Cyngor yswiriant atebolrwydd pe bai difrod yn cael ei wneud i eiddo cyfagos yn ystod y gwaith adnewyddu. Eglurodd y Prif Swyddog (Tai ac Asedau), pe bai difrod yn cael ei wneud i eiddo cyfagos, byddai'r atebolrwydd yn cael ei warantu oherwydd byddai hyn wedi cael ei gynnwys o fewn y broses dendro.

Cododd y Cynghorydd Dennis Hutchinson bryderon ar ran tenant a oedd yn gorfod talu am ddefnyddio garej tra'r oedd yn cael ei hadnewyddu. Cytunodd y

Prif Swyddog (Tai ac Asedau) siarad â'r Cynghorydd Hutchinson wedi'r cyfarfod er mwyn rhoi ateb priodol iddo.

Yn ôl y Cynghorydd Rosetta Dolphin, nid oedd y rhan fwyaf o garejis ar draws y Sir yn addas i'r diben mwyach, o ystyried maint cerbydau modern a gofynnodd a fyddai amserlen newydd yn dangos pryd byddai gwaith yn cael ei gwblhau ac ym mha wardiau, yn cael ei ddarparu i Aelodau. Eglurodd y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Dai fod ystyriaeth wedi cael ei rhoi, fel rhan o'r adolygiad garejis, i'r defnydd gorau o bob safle os nad oedd modd adnewyddu'r strwythurau oedd yno ar hyn o bryd.

Holodd y Cynghorydd Ray Hughes a ellid ystyried gwella'r lle parcio yng Nghoed-llai. Byddai hynny'n helpu i symud cerbydau oddi ar y ffordd a gwella'r gwasanaeth bws. Gofynnodd y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Dai i'r Cynghorydd Hughes roi manylion i swyddogion wedi'r cyfarfod.

Gofynnodd y Cynghorydd Ted Palmer am eglurhad ar y termau gwedd 2 a gwedd 3 fel y gwelir yn Atodiad C yr adroddiad. Dywedodd y Prif Swyddog (Tai ac Asedau) y byddai'n rhoi manylion pellach i'r Cynghorydd Palmer am y termau ar ôl y cyfarfod.

Gofynnodd y Cynghorydd George Hardcastle a oedd ystyriaeth wedi cael ei rhoi i newid y lleiniau gwair yn llefydd parcio ceir. Dywedodd y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Dai fod hyn wedi cael ei ystyried ond nad oedd o blaid cael gwared ar y mannau gwyrdd i gyd. Eglurodd y Prif Swyddog (Cynllunio, Yr Amgylchedd a'r Economi) fod trafodaethau wedi cael eu cynnal ynghylch wyneb cadarn y gellid ei ddefnyddio i barcio ceir ond oedd yn edrych fel man gwyrdd. Gellid cynnal a chadw hwn drwy dorri trwy bilen arbennig heb achosi unrhyw niwed i'r wyneb.

**<u>PENDERFYNWYD</u>:**

(a) Nodi'r sylwadau a wnaed gan y Pwyllgor ar y matrics penderfynu;

(b) Nodi'r sylwadau a wnaed gan y Pwyllgor ar y Rhestr Waith, ynghylch a oedd yn gyflawn ac yn addas; a

(c) Bod copi o'r Rhestr Waith newydd i'w dosbarthu i'r Aelodau i gyd.

**6. <u>STRATEGAETH ADFYWIO RHANBARTHOL A RHAGLEN TARGEDU BUDDSODDIAD ADFYWIO LLYWODRAETH CYMRU</u>**

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Cynllunio, Yr Amgylchedd a'r Economi) y Strategaeth Adfywio Rhanbarthol a Rhaglen Targedu Buddsoddiad Adfywio Llywodraeth Cymru. Roedd LlC wedi lansio'r Rhaglen hon i ddarparu cyllid ar gyfer prosiectau adfywio ledled Cymru. Roedd y cyllid yn amodol ar gyflwyno strategaeth adfywio rhanbarthol ac ar ddull oedd yn blaenoriaethu'r rhanbarth wrth ddatblygu cynigion buddsoddiad.

Adroddodd y Rheolwr Menter ac Adfywio fod y strategaeth adfywio ddrafft wedi cael ei datblygu o fewn y terfynau amser heriol a roddwyd i'r broses a bod dull cydweithredol wedi'i gymryd ar draws Gogledd Cymru i ddatblygu a

blaenoriaethu buddsoddiad ac i ganolbwyntio'r adnoddau prin ar feysydd adfywio blaenoriaeth a phrosiectau thematig a fydd yn gwneud defnydd o dair blynedd gyntaf y rhaglen hon. Roedd strategaeth adfywio ddrafft Gogledd Cymru yn cynnig deuddeg tref fel meysydd blaenoriaeth i gael eu hadfywio i LIC fel y dangosir yn yr adroddiad. Dewiswyd y trefi drwy ddefnyddio Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru i ystyried lefelau amddifadedd cyffredinol.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Ddatblygu Economaidd y byddai'n rhaid i'r cyllid a neilltuwyd i drefi Treffynnon a Shotton, sef y meysydd blaenoriaeth yn Sir y Fflint, gael arian cyfatebol gan y Cyngor.

Dywedodd y Cynghorydd Rosetta Dolphin y byddai angen ystyried yn ofalus sut byddai'r Cyngor yn bodloni'r gofynion o safbwynt arian cyfatebol. Roedd ganddi bryderon am siopau yn Nhreffynnon a oedd wedi derbyn cyllid adfywio yn y gorffennol ond wedi gadael iddynt ddirywio a gofynnodd a oedd modd cael yr arian hwn yn ôl. Mynegodd y Cynghorydd Ted Palmer ei siom fod Treffynnon wedi cael ei hadnabod fel maes blaenoriaeth oherwydd y lefelau amddifadedd ond soniodd am waith Cyngor Tref Treffynnon a'i gynlluniau ar gyfer gwella. Roedd yn croesawu'r ffaith fod y Cyngor yn parhau i ymgynghori a gweithio ar y cyd â Chyngor y Dref. Dywedodd y Rheolwr Menter ac Adfywio fod cyfnod o 5 mlynedd lle y gallai'r Cyngor adennill yr arian os oedd newid defnydd mewn eiddo ynghanol tref.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Hardcastle ynghylch eiddo mawr yng Nghei Conna a oedd wedi bod yn wag ers blynyddoedd maith, dywedodd y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Dai fod perchennog yr eiddo wrthi'n ei werthu drwy broses arwerthiant. Cadarnhaodd y Rheolwr Menter ac Adfywio fod y Cyngor wedi bod mewn trafodaethau â pherchennog yr eiddo a bod cynlluniau datblygu yn eu lle.

Teimlai'r Cynghorydd Ron Davies ei bod yn annheg fod Shotton wedi cael ei hadnabod fel ardal amddifad, oherwydd mai dim ond am ran fach o Shotton roedd hyn yn wir. Soniodd y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Dai am yr angen am waith ar y cyd rhwng amlasiantaethau a Rheolwyr Tai i daclo ardaloedd o amddifadedd o hyn ymlaen.

Canmolodd y Cynghorydd Paul Shotton waith Cymunedau'n Gyntaf yn targedu llwybrau ar gyfer cyfleoedd gwaith.

**<u>PENDERFYNWYD</u>:**

Cymeradwyo'r Strategaeth Adfywio Rhanbarthol drafft i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

## 7. <u>ADRODDIAD MONITRO DIWEDD BLWYDDYN CYNLLUN Y CYNGOR 2017/18</u>

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Cynllunio, Yr Amgylchedd a'r Economi) Adroddiad Monitro Diwedd Blwyddyn Cynllun y Cyngor 2017/18. Eglurodd fod yr adroddiad yn monitro cynnydd blaenoriaethau Cynllun y Cyngor, sef 'Cyngor Cefnogol' a 'Cyngor Uchelgeisiol', y ddau oedd yn berthnasol i'r Pwyllgor.

Cafwyd gwybodaeth gefndir gan y Prif Swyddog a dywedodd fod adroddiad monitro Cynllun y Cyngor 2017/18 yn adroddiad cadarnhaol, gydag 81% o'r gweithgareddau'n cael eu hasesu fel rhai oedd yn gwneud cynnydd da, a 69% yn debygol y gyrraedd y deilliant a ddymunir. Gwelwyd cynnydd da yn y dangosyddion perfformiad gydag 84% yn cyrraedd neu'n agos at darged y cyfnod. Roedd risgiau'n cael eu rheoli'n llwyddiannus hefyd gyda'r rhan fwyaf yn cael eu hasesu fel rhai canolig (67%) neu fân (10%).

Gofynnodd y Cynghorydd Paul Shotton a oedd effaith Credyd Cynhwysol a'r oedi mewn taliadau i denantiaid yn cael effaith negyddol ar ôl-ddyledion rhent. Gofynnodd hefyd ai cynnydd yn y galw am Grant Cyfleusterau i'r Anabl (DFG) oedd achos y dangosydd perfformiad a fethwyd. Dywedodd y Rheolwr Budd-daliadau ei bod yn rhy gynnar ar hyn o bryd i gadarnhau a fyddai'r oedi mewn taliadau yn cael effaith negyddol ar ôl-ddyledion rhent. Roedd y swyddogion yn dal i fod yn rhagweithiol yn cysylltu â thenantiaid yn ddigon buan i roi'r gefnogaeth angenrheidiol. Dywedodd y Prif Swyddog (Cynllunio, Yr Amgylchedd a'r Economi) y byddai adroddiad ar y Grantiau hyn yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor.

Gofynnodd y Cynghorydd George Hardcastle a ellid rhoi adroddiad diweddar ar ôl-ddyledion rhent a'r defnydd o lety gwely a brecwast i'r Pwyllgor yn un o'r cyfarfodydd nesaf. Dywedodd y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Dai fod adroddiad ar ôl-ddyledion rhent i gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ac y byddai hefyd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor hwn. Dywedodd y Rheolwr Cymorth i Gwsmeriaid fod adroddiad ar Ddigartrefedd, a fyddai'n cynnwys manylion am y defnydd o lety gwely a brecwast, yn cael ei roi i gyfarfod o'r Pwyllgor yn y dyfodol.

Yn dilyn sylwadau a wnaed am ôl-ddyledion rhent, dywedodd y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Dai fod y lefelau presennol yn ormodol a bod angen dull dim goddefgarwch i'r tenantiaid hynny a oedd yn gallu, ond yn gwrthod talu eu rhent. Soniodd y Prif Swyddog (Tai ac Asedau) am y tenantiaid a oedd angen cymorth a chefnogaeth a dywedodd y byddai'r rhain yn dal i gael eu rhoi ond y byddai'r Cyngor yn mynd ati dros y 12 mis nesaf i daclo tenantiaid oedd yn gallu, ond yn gwrthod talu eu rhent.

Diolchodd yr Aelodau i'r Prif Swyddog (Tai ac Asedau) a'r Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Dai am y dull a amlinellwyd ganddynt o ddelio ag ôl-ddyledion rhent.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi'r adroddiad.

## 8. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Cyflwynodd yr Hwylusydd y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ddrafft gan fanylu ar yr eitemau a oedd fod i gael eu cyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor. Yn dilyn Cyfarfod Blynyddol y Cyngor, dywedodd bod dyddiad pob cyfarfod yn y dyfodol wedi cael eu hychwanegu at y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol. Awgrymodd, yn dilyn y cyfarfod ac mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, yr Is-Gadeirydd a'r Prif Swyddogion, fod y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol yn cael ei phoblogi a'i hystyried

gan y Pwyllgor fel yr eitem gyntaf ar agenda'r cyfarfod nesaf. Cytunodd y Pwyllgor â'r awgrym.

Holodd y Cynghorydd George Hardcastle a allai'r Pwyllgor gael diweddariad ar y Cytundebau Lefel Gwasanaeth i denantiaid gan ei fod wedi cael pryderon gan denantiaid a oedd yn gorfod talu am wasanaethau nad oeddent yn eu defnyddio. Dywedodd y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Dai ei fod newydd ofyn am nodyn briffio ar y mater hwn a sicrhaodd y Pwyllgor y byddai tenantiaid a oedd wedi gorfod talu am wasanaeth nad oeddent yn ei ddefnyddio yn cael iawndal. Cytunodd i ddod â chopi o'r nodyn briffio i Aelodau'r Pwyllgor yn dilyn y cyfarfod

**PENDERFYNWYD:**

(a) Diwygio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol; a

(b) Rhoi awdurdod i'r Hwylusydd, wrth ymgynghori gyda Chadeirydd y Pwyllgor, amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen.

## 9. AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD

Nid oedd unrhyw aelodau o'r cyhoedd na'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 yb a daeth i ben am 11.35 yb)

..............................
**Cadeirydd**